

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

**Cathays: CO19034: Heol y Crwys - Mesurau Arafu Traffig a Gwelliannau i Gerddwyr**

### **Adroddiad Ymgynghori**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 31/07/2020 a 21/08/2020. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd

Nod y prosiect yw creu amgylchedd priffyrdd mwy diogel drwy leihau cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau i gerddwyr. Bydd y gwelliannau hyn o fudd i symudiadau cerddwyr ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer teithio llesol.

Gwaith arfaethedig i'w wneud i:

- Cyffordd Bwrdd Arafu ar Heol Woodville / Heol y Crwys a gwell cyfleusterau i gerddwyr gyda throetffyrdd wedi'u lledu.
- Cyffordd bwrdd arafu Monthermer Road / Heol y Crwys.
- Croesfan sebra â bwrdd arafu ger y Co-op ar Heol y Crwys.

Bydd y mesurau'n creu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr, yn benodol i ddefnyddwyr agored i niwed a disgyblion ysgol, a byddant yn gwella mynediad at yr ysgol, y parc a'r gwasanaethau bus.

Cafwyd arian ar gyfer y cynllun gan Lywodraeth Cymru.

O'r 250 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy a'r 24 hysbysiad a godwyd ar y safle, cafwyd 13 o ymatebion unigol.

5 - O blaid y cynllun a rhoddodd rhai sylwadau/awgrymiadau ychwanegol  
0 - Anghytuno â'r cynigion

Crynoir y pryderon a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### **Argymhelliad**

**Yng ngoleuni'r isod bwriedir bwrw ymlaen i roi'r cynllun ar waith yn unol â'r amlinelliad yn y cynllun ymgynghori.**

**Cathays: CO19034: Heol y Crwys - Mesurau Arafu Traffig a Gwelliannau i Gerddwyr**

Materion yn ymwneud â thraffordd feicio ar gyfer mwy o ddarpariaeth feicio.

*"O ystyried y cynlluniau ar gyfer traffordd feicio sy'n gysylltiedig isod, oni ddylid cael mwy o ddarpariaeth feicio, yn enwedig ar ben uchaf Heol y Crwys wrth y gyffordd â Heol yr Eglwys Newydd"*

Mae ein Map Rhwydwaith Integredig (MRHI) yn gynllun 15 mlynedd i flaenoriaethu gwelliannau ar gyfer cerdded a beicio a gellir ei weld ar-lein yn [ww.cardiff.gov.uk/activetravel](http://ww.cardiff.gov.uk/activetravel).

Tynnwyd sylw at yr angen am lwybr beicio ar Heol y Crwys ar y MRHI, ond byddai'n anodd datblygu llwybr ar wahân ar Heol y Crwys oherwydd lled cul y gerbyttfordd bresennol.

Mae llwybrau beicio bellach yn cael eu datblygu gan ddefnyddio Canllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, mae rhagor o wybodaeth am y Llwybrau Beicio ar-lein yn [www.caerdydd.gov.uk/beicffyrdd](http://www.caerdydd.gov.uk/beicffyrdd).

Materion yn ymwneud â llygredd.

*"Bydd y "Gwelliannau" ar (Heol y) Crwys yn achosi mwy o lygredd pan fydd traffig yn cael ei wthio i dwnadis a cherbydau'n gorfod aros yn eu hunfan yn hir. Mae'r feithrinfa yng Nghanolfan Gristnogol Woodville yn union o flaen "gwelliant c". Byddai lefel y llygredd yn dod yn hynod uchel oherwydd y "gwelliannau". A gynhaliwyd ymchwiliad ac Adroddiad i weld beth fyddai lefel y llygredd gwenwynig? Beth yw'r tocsinau hyn a sut y byddent yn effeithio ar blant yn enwedig eu hysgyfaint sy'n datblygu ac oedolion sydd â chyflyrau iechyd anadlol? Os nad oes ymchwiliad wedi'i gynnal, mae angen gwneud un ar unwaith a chyhoeddi'r canlyniad fel y gall y cyhoedd weld drostynt eu hunain a chael gwybodaeth Hefyd mae plant a babanod ifanc yn byw ar Heol y Crwys yn ogystal ag oedolion ag anabledau fel fi, sydd ag Asthma. Mae'r gwelliannau hyn yn golygu mwy o lygredd, sy'n effeithio ar iechyd ac organau anadlol hyd yn oed yn achosi niwed hirdymor ac afiechydon a allai beryglu bywyd."*

Cydnabyddir mai allyriadau traffig ffordd (gronynnau a nitrogen deuocsid cynradd/eilradd (NO<sub>2</sub>) yw'r prif ffactor sy'n cyfrannu at ansawdd aer gwael yng Nghaerdydd. Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol iawn o'r pryderon am yr effeithiau ar ansawdd yr aer ac wedi ymrwymo i gyrraedd lefelau mor isel ag sy'n ymarferol bosibl. Mae angen i'r Cyngor gydbwyso'r manteision a ddaw o fesurau diogelwch ffyrdd, o ran achub bywydau a lleihau anafiadau, ag unrhyw gynnydd bach mewn allyriadau a allai gael eu hachosi. Mae Monitro Ansawdd Aer yng nghyffiniau'r ardal yn dangos lefelau presennol islaw'r safon ansawdd aer ar gyfer NO<sub>2</sub> ac felly ni fyddai'r Cyngor yn disgwyl i'r mesurau hyn gynyddu allyriadau i lefel lle byddai torri ar safon ansawdd yr aer o ran NO<sub>2</sub> yn digwydd. At hynny, er mwyn gwella ansawdd aer, yn ogystal â chyfrannu at welliannau iechyd yng Nghaerdydd, mae'n hanfodol defnyddio mwy o ddewisiadau teithio cynaliadwy a llesol amgen a bydd gweithredu mesurau o'r fath yn annog pobl i wneud y newid hwn.

**Cathays: CO19034: Heol y Crwys - Mesurau Arafu Traffig a Gwelliannau i Gerddwyr**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pryderon am iechyd plant sy'n gysylltiedig â phroblemau llygredd aer a ddaw o draffig ger ysgolion. Er ein bod yn cydnabod bod llifoedd traffig uwch yn ystod amseroedd cymudo prysuraf y bore a'r prynhawn yn achosi lefelau uwch o grynodiadau, mae'r Cyngor wedi monitro sawl lleoliad ledled Caerdydd yn nodi nad yw y lefelau hyn yn y lleoliadau hyn yn uwch na'r safonau ansawdd aer ar gyfer NO<sub>2</sub>.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pryderon am iechyd plant sy'n gysylltiedig â phroblemau llygredd aer a ddaw o draffig ger ysgolion. Er ein bod yn cydnabod bod llifoedd traffig uwch yn ystod amseroedd cymudo prysuraf y bore a'r prynhawn yn achosi lefelau uwch o grynodiadau, mae'r Cyngor wedi monitro sawl lleoliad ledled Caerdydd yn nodi nad yw y lefelau hyn yn y lleoliadau hyn yn uwch na'r safonau ansawdd aer ar gyfer NO<sub>2</sub>.

Materion yn ymwneud â'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyffyrdd eraill ar hyd Heol y Crwys.

*"A ellid rhoi'r un driniaeth gyffordd i'r cyffyrdd sy'n weddill ar Heol y Crwys nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn ar hyn o bryd:*

*Ffanny St/Heol y Crwys*

*Whitchurch Place/Crwys/Tewkesbury St*

*Crwys/Dogfield*

*Crwys/Malefant*

*"Os yw'r gyllideb yn gyfyngedig, o ystyried mai dim ond tua 10 mlynedd yn ôl y cafodd Crwys/Dalton/Monthermer ei signalau a'u bod i safon eithaf uchel eisoes, a ellid hepgor hynny a defnyddio'r arian ar gyfer y cyffyrdd nad ydynt wedi'u gwella yn lle hynny?"*

Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu trwy ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru dan ei Grant Diogelwch ar y Ffyrdd, nid yw'n bosibl i ni ddefnyddio'r arian at ddibenion eraill.

Rydym wedi adolygu gweithrediad y cyffyrdd hyn ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd wedi'u nodi, ond byddwn yn monitro'r lleoliadau hyn a gellid eu cynnwys fel rhan o brosiect yn y dyfodol.

### Materion yn ymwneud â chais am groesfan ar Heol Woodville

*"Cais am groesfan sebra ar Heol Woodville ger Sainsbury's"*

O ran y groesfan awgrymedig, mae'r arian grant a ddyfarnwyd inni yn ymwneud yn benodol â lleihau'r gwrthdrawiadau ar Heol y Crwys, drwy ddarparu mesurau tawelu traffig a gwell cyfleusterau i gerddwyr.

Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i ganfod a oes ganddynt arian ychwanegol y gallem ei ddyrannu i ddarparu croesfan sebra newydd ar Heol Woodville, ger Rhymney Terrace. Bydd hwn wedyn yn ffurfio prosiect ar wahân.

### Materion yn ymwneud â'r Gorchmynion Rheoli Traffig

*"Oherwydd ar hyn o bryd mae gennym lawer o yrwyr cyflenwi sy'n defnyddio Heol y Crwys y tu allan i'n siop i gyflenwi ac ni allaf weithio allan a fyddai hyn nawr yn achosi problem fawr?"*

Nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i'r Gorchmynion Rheoli Traffig presennol felly ni fyddai unrhyw effaith ar ddsbarthu.

### Materion yn ymwneud â blocio cyffordd posibl yn Monthermer Road

*"Os ydych yn mynd i wneud y newidiadau hyn yna awgrymaf eich bod yn gwneud "cyffyrdd bocs melyn" o leiaf gan nad yw'r un presennol bron yn bodoli"*

*"Os byddwch yn culhau'r ffordd ar Heol y Crwys ar y gornel ""LB"" (gweler y map), bydd hyn yn achosi'r traffig i gynffoni ar Heol y Crwys gan mai'r broblem yma yw na fydd ceir yn gallu mynd yn syth drwy'r gyffordd oni bai bod ceir sy'n troi i'r dde yn "cael blaenoriaeth"" sydd byth yn digwydd, mae hyn oherwydd nifer y ceir sy'n gwneud tro i'r dde o Heol y Crwys i Monthermer Rd. "*

*"Ar hyn o bryd pan fydd hyn yn digwydd yn hytrach na dal yr holl draffig y tu nôl, gall unrhyw geir sy'n dymuno mynd yn syth basio'r cerbydau sy'n troi i'r dde ar y tu mewn gan fod lle i 2 gar fynd heibio, gan beidio ag achosi mwy o dagfeydd."*

Fel sy'n wir am yr holl Gynlluniau Prosiectau Trafnidiaeth fel rhan o ddatblygiad cychwynnol cynllun, cynhelir arolygon sy'n edrych ar ffactorau fel llif cerbydau, cyflymder cerbydau, symudiadau cerddwyr a hefyd ymweliadau safle er mwyn ein helpu i wneud penderfyniad ar ba fesurau diogelwch ar y ffordd sydd eu hangen mewn lleoliad penodol.

Os caiff y cynllun ei weithredu byddwn yn adnewyddu'r blwch melyn.

Bydd y lleoliad yn cael ei adolygu gan y Tîm Gorfodi Sifil, byddant yn asesu a oes cyfiawnhad dros gamera gorfodi cyffordd bocs melyn.

### Materion yn ymwneud â lledu'r droetffordd arfaethedig ger yr eglwys

*"Hyd y gwelwn ni, byddai'r cynllun fel y'i cynigir ar hyn o bryd naill ai'n gofyn i hers rwystro llif y traffig cyn ac ar ôl y gwasanaeth er mwyn symud yr arch i/o'r gwasanaeth, neu ei gwneud yn ofynnol i'r hers aros cryn bellter o'r eglwys a'r arch i gael ei gario gryn bellter i'r gwasanaeth – y gallai'r naill neu'r llall achosi pryder neu ofid i deulu'r ymadawedig."*

*"A fyddai modd lleihau graddau lledu'r palmant er mwyn darparu lle rywle ar hyd blaen ein hadeilad ar Heol y Crwys lle gallai un cerbyd stopio dros dro heb flocio Heol y Crwys yn llwyr i lif traffig arall sy'n teithio tua'r gogledd. (Mae'n debyg y byddai'n rhaid diogelu'r gofod hwn â llinellau melyn dwbl rhag pobl yn parcio yno – ond a fyddai'n caniatáu defnyddio cerbydau angladd, a hefyd mathau eraill o ddadlwytho/llwytho yn y cyffiniau agos. Er enghraifft, byddai darparu lle o'r fath hefyd yn caniatáu i gerbyd â theithwyr anabl neu oedrannus stopio dros dro i'w galluogi i ddefnyddio ein hadeilad cymunedol.)"*

Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Eglwys i sicrhau bod ateb addas yn cael ei gyflwyno yn y lleoliad hwn na fydd yn cael effaith andwyol ar gerbydau sydd angen mynediad i'r Eglwys. Nid ydym yn bwriadu newid lle mae cerbydau'r Eglwys yn parcio ar hyn o bryd.

### Materion yn ymwneud ag ymholiadau cynnal a chadw ychwanegol.

*"Ail-osod arwyddion ffyrdd 'dim ffordd drwodd' i atal cerbydau rhag mynd ar ras ar hyd y ffordd ond i orfod troi o gwmpas mewn stryd gul i ddychwelyd i Heol y Crwys sy'n achosi mwy o dagfeydd i'r briffordd brysur."*

*"Ail-baentio ardal barcio preswylwyr yn gliriach i atal parcio anghyfreithlon yn yr ardal hon yn enwedig am ein bod ni yn talu am drwyddedau parcio. Mae angen cysylltu hyn â swyddogion gorfodi traffig sy'n patrolio'r ardal (pan fo gweithredu mesurau'r cyngor oherwydd y pandemig yn caniatáu hynny)."*

*"Mae angen rhoi wyneb newydd i'r ffordd ei hun ar ôl pedair blynedd o gerbydau offer trwm sy'n dod i mewn ac yn ymadael â Lucas Street wrth adeiladu llety myfyrwyr uwchben ac y tu ôl i 36-48 Heol y Crwys a'r gwaith adeiladu presennol y tu ôl i fwyty Saffron."*

Bydd yr holl faterion yn cael eu hadolygu gan ein tîm Rheoli Asedau a byddant yn ymgymryd ag unrhyw waith cynnal a chadw sydd ei angen.

Materion yn ymwneud ag adleoli'r Arhosfan Bysiau ger Lucas Street.

*"Rwy'n sylwi bod yr arhosfan bws y tu allan i Dafarn y Crwys wedi'i symud i wneud lle ar gyfer y groesfan ar fwrdd arafu arfaethedig i gerddwyr. Mae'r blwch arhosfan bysiau sydd wedi ei farcio ar y ffordd bellach yn gorchuddio'r fynedfa i Lucas Street, a fydd yn achosi problemau i ni wrth fynd i'r stryd neu ei gadael mewn car. Fel y soniwyd cyn hyn, dyma'r unig fynediad sydd gennym yn Lucas Street oherwydd y mesurau tawelu traffig blaenorol. A gaf awgrymu bod yr arhosfan bysiau'n cael ei symud i ochr arall y gyffordd i oresgyn y mater hwn?"*

*"Allech chi hefyd edrych i mewn i'r arhosfan bysiau ar gyffordd Lucas Street? Mae'n ymddangos bod marciau'r arhosfan bysiau yn gorgyffwrdd â'r gyffordd sy'n ymddangos braidd yn beryglus ac yn rhyfedd ac a allai effeithio ar y mynediad i'r maes parcio?"*

Rydym wedi adolygu'r mater o ran lleoliad yr Arhosfan Bysiau ac rydym wedi penderfynu y byddai mewn sefyllfa well y tu allan i Rif 44. Pan fydd bws yn stopio, ni fydd yn tarfu ar fynediad i Lucas Street.

Materion yn ymwneud â pharcio ar y corneli a'r strydoedd ochr.

*"Gobeithio y bydd y gwelliannau'n atal cerbydau rhag parcio'n anghyfreithlon ar gorneli'r ffyrdd i fynd i mewn i siopau a chasglu danfoniadau a fydd yn mynd i'r afael â phryderon gan gerddwyr. Fy mhryder i yw y bydd y cerbydau hynny'n ceisio parcio mewn strydoedd ochr a fydd yn fwyfwy prysur. Rydym eisoes yn profi mwy o barcio cerbydau gan yrwyr dosbarthu"*

*"Mae adeiladu llety i fyfyrwyr yng nghefn ar 36-48 Heol y Crwys hefyd wedi golygu mwy o draffig er gwaethaf sicwydd gan Cynllunio Cardiff na fyddai myfyrwyr yn defnyddio ceir! Roedd y cynlluniau ar gyfer y datblygiad hwn yn cynnwys 8 man parcio i'w defnyddio gan y busnesau o dan lety'r myfyrwyr ond nid yw'n cael ei ddefnyddio o hyd gan fy mod yn credu bod y landlord yn codi am y fraint. Mae hyn yn golygu ein bod yn dal i weld defnyddwyr busnes yn parcio ar y stryd ac yn parcio fwyfwy ar y palmant, yn ôl pob tebyg i atal eu ceir rhag cael eu difrodi gan geir sy'n bacio nôl allan o'r stryd."*

Yn ôl canllawiau Rheolau'r Ffordd Fawr, ni ddylai modurwyr barcio o fewn 10m i gyffordd. Mae Gorchmynion Rheoli Traffig (GRhT) yn bod yn barod ar gyfer 'dim aros ar unrhyw adeg' (llynellau melyn dwbl) wrth y cyffyrdd er mwyn cael gwared ar y parcio rhwystrol. Ymdrinnir â gorfodi cyfyngiadau parcio, megis llynellau melyn dwbl, gan Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor y gellir cysylltu â hwy ar 2087 2088.

Ar hyn o bryd, mae adolygiad yn cael ei gynnal o'r holl gyfyngiadau parcio yn yr ardal ac mae hyn wedi'i ohirio oherwydd Covid, bydd yr adolygiad yn sefydlu newidiadau posibl i'r strategaeth barcio bresennol yn ardal Cathays.

### Materion yn ymwneud â Thwmpathau Cyflymder.

*"Os ydych chi'n teimlo y byddai angen twmpathau cyflymder a allai'r rhain fod y tu allan i unrhyw lôn feicio neu fel arall, dylid cynllunio rhain i fod yn fwy cyfeillgar i feicio? Mae llawer o dwmpathau cyflymder sy'n rhy "serth" neu mewn cyflwr gwael sy'n golygu bod beiciwr mewn peryg o gael anaf, difrod i feiciau, cael eu gorfodi i ganol y ffordd neu'r gwter lle mae arwynebau'r ffordd yn aml yn erchyll."*

Mae wedi'i brofi bod mesurau arafu traffig yn ffordd effeithiol o leihau anafiadau ffordd. Nid ar chwarae bach y penderfynwyd gosod rampiau a deallir eu bod yn achosi anghyfleuster i yrwyr diogel a chyfrifol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Yn anffodus canfuwyd mai'r rhain, yn aml, yw'r unig fesur effeithiol y gellir eu defnyddio i sicrhau bod y ffyrdd yn ddiogel, yn benodol i ddefnyddwyr agored i niwed megis cerddwyr a beicwyr sy'n hen ac ifanc. Mae hyn oherwydd ar hyn o bryd yn aml y rampiau yw'r unig fesur sy'n gwella'n effeithiol ac yn sylweddol ymddygiad gyrru'r lleiafrif o yrwyr anniogel, anghyfrifol a diofal. Bydd y traffig yn gyrru'r arafach a fydd yn creu amgylchedd priffordd diogelach i bob defnyddiwr y ffordd.

Bydd dyluniad y byrddau arafu yn cynnwys graddiannau ramp o 1/14, gyda hyd gwastad o 6m ac uchder ramp o 75mm. Dylai hyn arwain at ramp sy'n effeithiol o ran lleihau cyflymderau cerbydau ac, os gyrrir drosto ar gyflymder priodol, ni ddylai achosi anghysur i deithwyr mewn cerbydau.

### Materion yn ymwneud â Manwerthu sy'n cael eu heffeithio gan y cynllun.

*"Bydd y "gwelliannau" yn effeithio ar fusnesau ar Heol y Crwys sy'n dibynnu ar draffig sy'n pasio ar gyfer masnach. Yn ogystal, mae'r pandemig wedi creu colled sylweddol i fusnesau sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd. Y "gwelliannau" hyn fyddai'r hoelen olaf yn eu heirch."*

Mae'r ffordd yn llawn o siopau, busnesau ac eiddo preswyl ac mae'n ganolfan i gymuned brysur. Mae'r gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith fel rhan o Grant Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r fenter hon yn cynnwys gweithredu cynlluniau sydd wedi'u cynllunio i'w gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl gael mynediad i gymunedau a symud o'u mewn ac sydd wedi'u hanelu'n benodol at ddulliau cynaliadwy o deithio megis cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bwriedir i'r cynlluniau hyn hefyd gynorthwyo cerddwyr sy'n agored i niwed fel plant, yr henoed a phobl anabl. Bydd y gwaith ar y cynllun hwn yn ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bob cerddwr symud drwy'r ardal a chael mynediad i'r cyfleusterau yn yr ardal. Yn anffodus, bydd hyn yn arwain at golli tua 10 lle parcio ar hyd y cynllun. Cynlluniwyd y cynllun i leihau'r gostyngiad hwn i'r eithaf ac ystyrir bod y manteision i gerddwyr yn cyfiawnhau'r anghyfleustra bach hwn i fodurwyr.

## Cefnogaeth i'r cynllun

*"Rwy'n croesawu'n arbennig y groesfan newydd gyferbyn â Co-Op, a'r croesfannau ar fwrdd arafu/twmpath i leihau cyflymder traffig."*

*"Rwyf wedi darllen y cynigion ar gyfer tawelu traffig a gwelliannau i gerddwyr yn Heol y Crwys gyda diddordeb. Er fy mod yn cytuno mewn egwyddor â'r prif faterion a nodwyd fel cyflymder cerbydau a diffyg cyfleusterau croesi i gerddwyr"*

*"Pob lwc gyda'r cynlluniau sy'n ymddangos yn gadarnhaol iawn ac a fyddai'n ychwanegiad i'w groesawu at y cynlluniau cerddwyr a beicio niferus sydd eisoes ar y gweill."*

*"Gobeithio y bydd y gwelliannau'n atal cerbydau rhag parcio'n anghyfreithlon ar gorneli'r ffyrdd i fynd i mewn i siopau a chasglu danfoniadau a fydd yn mynd i'r afael â phryderon gan gerddwyr"*

*"Mae'r ymddiriedolwyr yn croesawu'r rhan fwyaf o agweddau'r cynllun arfaethedig"*

*"I fod yn glir, rwy'n cefnogi mynd allan i ymgynghori ar y cynlluniau – yn enwedig cael croesfan gan y co-op. Rwyf wedi rhedeg draw yno droeon oherwydd os ydych yn gerddwr, mae'n teimlo'n bwynt naturiol."*